



CANLLAWIAU AR DROSSLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL **2019 - 2023**

Mae'r canllawiau hyn yn disodli Protocol presennol y Cyngor ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC), a gymeradwywyd gan y Cabinet yn 2016. Mae'n adlewyrchu'r hinsawdd ariannol newidiol sy'n wynebu Cyngor Bro Morgannwg, ynghyd â Chanllawiau Arfer Gorau diweddaraf Ystadau Cymru / Llywodraeth Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019). Mae canllawiau CAT yn rhan annatod o broses Cynllunio Rheoli Asedau'r Cyngorau.

Wrth fynd ati i Drosglwyddo Asedau Cymunedol, bydd y Cyngor yn ceisio cadw at yr egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Nod y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy roi egwyddorion datblygu cynaliadwy ar waith.

1. Pwy ddylai ddarllen y canllawiau hyn?

Bydd y canllawiau o gymorth i'r Cyngor wrth iddo benderfynu ar geisiadau TAC, ond byddant hefyd o gymorth i'r sector cyhoeddus ehangach (fel cyngorau tref a chymuned) a chyrrff yn y trydydd sector. Byddant yn ddefnyddiol i amrywiaeth eang o gyrff cymunedol, fel mudiadau gwirfoddol, cwmnïau cydweithredol, mentrau cydfuddiannol a chymdeithasol a chynghorau tref a chymuned, sy'n ystyried gwneud cais i'r Cyngor Drosglwyddo Asedau Cymunedol iddynt.

2. Beth yw'r broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC)?

Wrth Drosglwyddo Ased Cymunedol (TAC) bydd corff yn y sector cyhoeddus, Awdurdod Lleol fel arfer, yn trosglwyddo perchnogaeth ased eiddo (gall hyn gynnwys, neu fod yn gysylltiedig â, gwasanaeth), i gyngor tref neu gymuned neu i gorff yn y trydydd sector neu grŵp cymunedol arall (a gaiff eu hystyried yn gorff yn y trydydd sector at ddibenion y canllawiau hyn). Mae gwahanol ffyrdd o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ond, yn gyffredinol, mae'n golygu trosglwyddo tir neu adeilad sy'n eiddo i'r Cyngor i stiwardiaeth cyngor tref neu gymuned neu gorff yn y trydydd sector. Gellir trosglwyddo asedau drwy:

- Gytundeb rheoli
- Trwydded i feddiannu
- Les tymor byr
- Les tymor hir

- Trosglwyddo rhydd-ddaliad (amgylchiadau eithriadol)

Fel rheol, caiff ased cymunedol ei drosglwyddo ar ffurf les gan ragdybio y bydd y lesddeiliad (sef y cyngor tref neu gymuned, neu'r corff yn y trydydd sector) yn gyfrifol am yr holl waith trwsio ac yswirio, a'r holl gostau sydd ynghlwm wrth redeg yr ased).

Mae yna amgylchiadau lle na fydd CAT (a phrotocol / canllaw CAT) yn briodol a gall dulliau traddodiadol o brydlesu / trwyddedu asedau fod yn llwybr mwy priodol. Mater i'r Cyngor fel corff trosglwyddo fydd penderfynu ai CAT yw'r broses gywir fesul achos.

Bydd dyletswyddau ymddiriedol a statudol y Cyngor (a amlinellir ym mharagraff 8 isod) yn golygu bod yn rhaid i bob cais unigol iddo Drosglwyddo Ased Cymunedol (ac unrhyw gytundeb dilynol) gael ei drin ar wahân.

3. Cyd-destun polisi lleol a chysylltiadau â strategaethau eraill

Mae Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg yn ceisio sicrhau portffolio darbodus a chynaliadwy sy'n addas i'r diben ac sy'n ei helpu i ddarparu gwasanaethau ledled Bro Morgannwg. At y diben hwn, rhaid cydbwysu'r angen i sicrhau'r pris gorau a lleihau rhwymedigaethau referniw â'r buddion sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r ased mewn ffordd wahanol, gan gynnwys ei drosglwyddo os yw hynny'n briodol. Mae Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor yn nodi sut y mae'n ceisio gwneud y gorau o'i asedau eiddo ac mae'n cynnig cyfeiriad strategol i sicrhau bod gennym eiddo sy'n addas i'r diben. Un ffordd o wneud hyn yw drwy ddefnyddio'r broses TAC i gryfhau rôl y sectorau gwirfoddol a chymunedol yn y gwaith o redeg gwasanaethau cyhoeddus lleol a fyddai, yn draddodiadol, yn cael eu rhedeg gan y Cyngor.

4. Egwyddorion TAC Bro Morgannwg

Mae canllawiau TAC y Cyngor wedi'u seilio ar yr egwyddorion allweddol a ganlyn:

- i. Anghenion y gymuned – rhaid cael cysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Bydd yn rhaid dangos tystiolaeth y bydd pob rhan o'r gymuned yn gallu manteisio ar yr ased. Dylai pobl y gymuned fedru dylanwadau ar benderfyniadau'n dilyn proses ymgynghori ac ymgysylltu.
- ii. Hybu nodau ac amcanion y Cyngor – Rhaid i'r cynigion gefnogi cyflawni Amcanion a Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol allweddol y Cyngor a chefnogi cyflwyno Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- iii. Tryloywder - Nodir y broses benderfynu ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol Llawn yn Atodiad 2. Bydd Grŵp Llywio Trosglwyddo Asedau Cymunedol (Grŵp CAT) yn gyfrifol am asesu ceisiadau Cam 1 a Cham 2. Bydd y Grŵp Gweithredol hwn yn cael ei gadeirio gan y Rheolwr Gweithredol (Eiddo) a bydd aelodau'r Grŵp yn cynnwys uwch swyddogion sy'n cynrychioli adrannau Cyfreithiol, Adnoddau (Cyllid), Adfywio a Chynllunio'r Cyngor a thimau Trawsnewid Busnes.

iv. Cynaliadwyedd – Wrth wneud cais, rhaid i gyrff ddangos y gallant reoli'r ased yn effeithiol drwy gyflwyno achos busnes cadarn. Dylai hyn gynnwys asesiad o allu ariannol a threfniadaethol, gan gynnwys:

- Cynigion i gynhyrchu incwm e.e. llogi ystafelloedd neu gyfleusterau;
- Tystiolaeth bod gan y prosiect gefnogaeth y gymuned leol a bod ymgynghoriad wedi'i gynnal i brofi angen lleol a chefnogaeth y gymuned. e.e. defnyddio cyfryngau cymdeithasol / arolygon ac ati. Er na fyddai grwpiau buddiant sengl yn cael eu hatal rhag ymgeisio, byddai'n well gan y Cyngor weld prosiectau sy'n dangos sbectrwm eang o ddefnyddiau cymunedol
- Tystiolaeth i ddangos y caiff y cyfleusterau eu defnyddio'n effeithlon o ran lle ac amser;
- Strwythur rheoli clir a manylion yn dangos sut y caiff yr adeilad/tir ei reoli o ddydd i ddydd gan gynnwys sut y caiff unrhyw ofynion statudol eu bodloni.

5. Dewis asedau sy'n addas i'w trosglwyddo

Ni fydd yr holl asedau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu hystyried yn addas i'w trosglwyddo. Mae'n debyg na chaiff asedau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau hanfodol y Cyngor neu sy'n cynhyrchu ffrwd incwm i'r Cyngor eu hystyried yn addas. Yn benodol, mae'n annhebygol y caiff asedau sy'n rhan o'r portffolios siopau a diwydiant eu hystyried yn addas i'w trosglwyddo gan eu bod yn cynhyrchu incwm rhent ac yn cyfrannu at dwf economaidd yr ardal. Mae gan y Cyngor hefyd Raglen Buddsoddi Cyfalaf i helpu i roi prosiectau fel ysgolion newydd ar waith. Mae'n bwysig felly fod y Cyngor yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf drwy werthu safleoedd allweddol ar y farchnad agored er mwyn medru buddsoddi yn y rhain. Mae'n annhebygol y bydd asedau sydd â'r potensial i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf sylweddol yn cael eu hystyried yn addas i'w trosglwyddo.

Dyma enghreifftiau o'r asedau y gellid eu hystyried;

- Toiledau cyhoeddus;
- Pafiliynau parciau;
- Canolfannau cymuned;
- Meysydd chwarae;
- Caeau chwarae (ac eithrio caeau chwarae ysgolion);
- Lawntydd bowlio.

Caiff pob cais ei drin yn ôl ei deilyngdod ei hun. Dewisir asedau sy'n addas i'w trosglwyddo drwy ddilyn ein:

a. *Cynllun Rheoli Asedau*

Mae gan y Cyngor broses bendant ar gyfer rheoli asedau a byddwn yn adolygu ein daliadau eiddo'n rheolaidd. Bydd anghenion gwasanaethau, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau drwy ddulliau gwahanol, yn dylanwadu ar yr angen i'r Cyngor gadw asedau. Caiff cyfleoedd posibl i drosglwyddo asedau cymunedol eu hystyried drwy Brotocol Gwaredu Asedau'r Cyngor.

Caiff asedau a ddewisir drwy'r broses hon eu hysbysebu ar y farchnad agored i'w

trosglwyddo pan ddaw'r cyfle. Caiff unrhyw un sydd â diddordeb gyfle i Fynegi Diddordeb o fewn cyfnod penodol lle mae'n berthnasol gwneud hynny. Gall y broses fod yn gyfyngedig, yn enwedig os bydd elfen o wasanaeth yn cael ei throsglwyddo. Os bydd mwy nag un corff neu grŵp yn Mynegi Diddordeb mewn ased penodol, cânt i gyd eu hannog i ystyried rhannu cyfrifoldeb dros yr ased a rhannu'r buddion. Os na fydd hynny'n briodol, yna dilynir proses ddethol i ystyried i ba raddau y mae'r holl bartïon yn bodloni'r meini prawf ymgeisio.

b. Cais gan denantiaid presennol

Nid yw TAC yn syniad newydd i'r Cyngor hwn ac mae nifer o gyrff cymunedol eisoes yn meddiannu'n hadeiladau o dan y trefniadau presennol. Byddwn yn ystyried ceisiadau gan y cyrff hyn i amrywio amodau eu meddiannaeth, er enghraifft, drwy ymestyn cyfnod y les i fodloni gofynion cyllid grant neu i ffurfioli trefniadau trwyddedu. Sylwch y bydd yn rhaid iddynt barhau i fodloni holl feini prawf y broses ymgeisio ac asesu. Gellir ystyried ceisiadau gan y Sefydliad Cymunedol / Tenant presennol o dan drac ar wahân / llwybr cyflym ar wahân i'r canllaw / protocol hwn. Byddai'r sefydliad cymunedol / sefydliad arall fel arfer yn meddiannu'r ased yn unig er mwyn symud ymlaen o dan y dull hwn.

c. Ceisiadau cyffredinol

Gall cynghorau tref a chymuned a chyrff yn y trydydd sector hefyd Fynegi Diddordeb mewn eiddo penodol. Fodd bynnag, os penderfynir bod ased yn addas i'w drosglwyddo, dylid nodi y caiff ei gynnig, fel arfer, i'r gymuned ehangach os daw cyfle i'w waredu, a hynny er mwyn sicrhau tryloywder.

6. Pwy all wneud cais?

Bydd y Cyngor yn ystyried Mynegiant o Ddiddordeb (gweler Atodiad 3) gan y canlynol (gweler Atodiad 1 hefyd):

- (i) Cynghorau tref a chymuned;
- (ii) Y trydydd sector - cyrff annibynnol, anllywodraethol a sefydlwyd i gyflawni amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol yn hytrach nag amcanion ariannol. Caiff unrhyw arian dros ben ei ail-fuddsoddi i hybu eu hamcanion cymdeithasol er budd y bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Gall y rhain fod yn gyrff elusennol, yn gyrff gwirfoddol/cymunedol, yn fentrau cymdeithasol ac yn gymdeithasau cydfuddiannol;
- (iii) Grwpiau cymunedol.

7. Proses Ymgeisio CAT Llawn (Ac eithrio'r Trac Cyflym / Deiliad presennol sy'n ail-drafod telerau)

Yn ogystal â'r meini prawf yn Atodiad 1 i'r canllawiau hyn, dyma rai o'r ffactorau y bydd y Cyngor yn eu hystyried wrth asesu ceisiadau:

- A oes gan y corff y gallu i barhau i ddefnyddio'r ased yn ystod y cyfnod y bydd y cyfrifoldeb drosto wedi'i drosglwyddo;
- A fydd y cynnig yn cynnal a/neu'n gwella'r gwasanaethau lleol y gellid eu colli fel arall;

- A yw'r cynnig yn gydnaws â nodau, amcanion a blaenoriaethau corfforaethol allweddol y Cyngor;
- A yw'r Cyngor yn debygol o fod ar ei ennill yn ariannol.

Mae'n hanfodol bwysig fod y grŵp sy'n gwneud y cais yn gallu dangos:

- Cysylltiadau cryf â'r gymuned leol ac y bydd o fudd uniongyrchol i bobl Bro Morgannwg;
- Y bydd o fudd i amrywiaeth mor eang â phosibl o bobl ac y gwneir pob ymdrech i gynnwys pawb yn y gymuned yn y prosiect;
- Bydd gan y gymuned leol lais mewn penderfyniadau;
- Nid prif ddiben y corff yw gneud elw masnachol.

Rhaid i'r grŵp sy'n gwneud cais ddangos bod ganddynt:

- Ddulliau llywodraethu da a hynny drwy ddilyn prosesau agored ac atebol;
- Systemau rheoli a systemau ariannol clir;
- Cyfansoddiad sy'n addas i'r diben (fel ag y bo'n briodol – gan nad yw hynny'n ofynnol i gyrrff statudol fel cynghorau tref).

Rhaid i'r grŵp sy'n gwneud cais fod â'r sgiliau a'r gallu angenrheidiol i:

- Ddarparu'r gwasanaethau neu reoli'r ased dan sylw neu mae'n rhaid i'r sgiliau i wneud hynny fod ar gael iddynt; NEU
- Bod yn ymwybodol o'r angen i feithrin gallu a dangos sut y byddant yn gwneud hynny.
- Mae rhagor o wybodaeth i grwpiau sydd am wneud cais yn Atodiad1. Caiff ceisiadau TAC eu hystyried os yw'r holl feini prawf a nodir yn Atodiad 1 wedi'u bodloni.

8. Fframwaith penderfynu

Mae'r broses benderfynu i'w gweld yn Atodiad 2 ar gyfer ceisiadau CAT Llawn. Ystyrir pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun. Os bydd cais yn llwyddiannus, bydd y Cyngor (ar ôl ymgynghori â'r ymgeisydd) yn penderfynu ar y ffordd fwyaf addas o drosglwyddo'r ased h.y. hyd y les etc ar ôl ystyried cyfnod y les neu unrhyw ddaliadaeth arall y gwneir cais amdano).

Mae tri cham i'r broses:

- i. Mynegi diddordeb (templod yn Atodiad 3)
- ii. Cynllun Busnes Llawn (templod yn Atodiad 4)
- iii. Argymhellion a phenderfyniad

Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

Wrth wneud penderfyniadau bydd y Cyngor fel corff trosglwyddo yn rhoi sylw i Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn un o'r ysgogiadau allweddol

i helpu Cyrff Cyhoeddus i ddod at ei gilydd, i weithio ar y cyd ac i gyflawni gwelliannau i'r llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru.

Daeth y Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2016 a'i nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf, gan gynnwys rhai sydd am drosglwyddo asedau, feddwl mwy am y tymor hir trwy gynnwys pobl a chymunedau a chydweithio â phartneriaid o bob sector i gymryd agwedd fwy integredig a chynaliadwy

9. Gwaredu asedau ac ystyriaethau cyfreithiol eraill

Mae gan awdurdodau lleol bŵer dewisol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) i waredu tir mewn fel y mynnant, fel arfer am yr "ystyriaeth orau" bosibl. Fel arfer, caiff ased ei drosglwyddo drwy drosglwyddo'r les (sy'n cynnwys lesau tymor hir a thymor byr a thenantiaethau) neu drwydded (sy'n cynnwys cytundeb rheoli). Caiff penderfyniad i drosglwyddo rhydd-ddaliad ei ystyried dan amgylchiadau eithriadol. Penderfynir ar y ddaliadaeth a gynigir yn ôl pob achos unigol, ond bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i fodloni gofynion yr ymgeisydd pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol (er enghraifft, o ran hyd y les).

Penderfynir a ddylid codi ystyriaeth marchnad agored am yr ased hefyd yn ôl pob achos unigol. Os caiff ased ei drosglwyddo am lai na'r pris gorau posibl, caiff ei drin yn unol â Deddf Llywodraeth leol 1972: Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 (Caniatâd Gwaredu Cyffredinol) sy'n ymdrin â gwaredu tir/eiddo yng Nghymru am lai na'r pris gorau posibl (y ddogfen ganllaw berthnasol i Awdurdodau sy'n trosglwyddo asedau).

Yn ogystal â hyn, mae darpariaeth Deddf 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n dymuno gwaredu "man agored", hysbysebu hyn mewn papur newydd lleol am bythefnos ac ystyried unrhyw wrthwynebiad. Rhaid hysbysebu hyn p'un ai yw'r man agored y bwriedir cael gwared arno'n dod o dan amodau'r Cydsyniad Gwaredu Cyffredinol ai peidio.

Mae'r ystyriaethau posibl eraill yn cynnwys cyfraith y Comisiwn Ewropeaidd yn ymwneud â materion caffael, cymorth gan y wladwriaeth, cytundeb gwasanaeth etc. Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn cael cyngor proffesiynol annibynnol cyn bwrw ymlaen.

Os penderfynir trosglwyddo ased arbennig o dan TAC, ni fydd hynny'n gosod cynsail. Caiff pob TAC ei farnu'n ôl ei deilyngdod ei hun a bydd manylion pob cytundeb trosglwyddo unigol yn cael eu trafod ar wahân.

Bydd y Cyngor yn ystyried gofynion Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wrth asesu pob cais. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried sut y bydd penderfyniad i drosglwyddo ased yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

10. Ffynhonnell gwybodaeth a chanllawiau i ymgeiswyr

Yn Atodiad 5, mae rhestr o ffynonellau sy'n rhoi gwybodaeth a chanllawiau

ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol i'r rhai sydd am wneud cais i'r Cyngor drosglwyddo asedau cymunedol.

ATODIAD 1 – CANLLAWIAU I GYRFF SY’N GWNEUD CAIS

Os yw unrhyw sefydliad, gan gynnwys cyngorau tref a chymuned, cyrff yn y trydydd sector neu unrhyw grŵp cymunedol arall yn dymuno gwneud cais i’r Cyngor drosglwyddo Ased Cymunedol iddynt, dylent ymgysylltu â’r math o faterion y bydd angen i’r Cyngor eu hystyried fel rhan o’r broses o gytuno i drosglwyddo ased cyhoeddus. Yn gyntaf, bydd angen i’r rhai sy’n gwneud cais ystyried y canlynol:

(a) I wneud cais, rhaid bod yn:

Gyngor tref neu gymuned neu’n gorff yn y trydydd sector sy’n bodloni’r meini prawf a ganlyn, neu sy’n gallu dangos eu bod yn gweithio tuag at hynny:

- Mae’n gymuned neu’n endid cyfreithiol sydd, yn ddelfrydol, yn gorfforedig ac yn cynnig atebolrwydd cyfyngedig i’r rhanddeiliaid cysylltiedig. Fel arfer, bydd yn gwmni, yn gymdeithas neu’n sefydliad elusennol corfforedig. Drwyddo, bydd modd rheoli adeiladau a darparu gwasanaethau, neu fod yn berchen ar y rhain;
- Mae’n bod er budd cymuned/cymdeithas/yr amgylchedd;
- Nid yw’n dosbarthu elw - caiff unrhyw arian dros ben ei ail-fuddsoddi er budd y gymuned neu i hybu ei amcanion cymdeithasol;
- Gall ddangos fod ganddo systemau llywodraethu da a phrosesau agored ac atebol sy’n cynnwys dulliau priodol o reoli a chynnal archwiliadau ariannol;
- Gall ddangos ei fod yn ymgysylltu â’r gymuned (N.B efallai na fydd hyn yn ofynnol ar gyfer tenantiaid presennol lle mae ail-drafod telerau yn cael eu trafod);
- Gall ddangos bod gan y corff y sgiliau a’r gallu i ddarparu’r gwasanaethau ac i reoli’r ased yn effeithiol, neu fod y sgiliau a’r gallu angenrheidiol ar gael iddo;
- Mae’n darparu gwasanaethau, neu’n cymryd rhan mewn gweithgareddau, sy’n sicrhau buddion economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol i’r gymuned;
- Rhaid darparu copïau o adroddiad a chyfrifon blynyddol y corff os ydynt ar gael.

a rhaid iddo fod yn gorff sydd dan arweiniad y gymuned:

- Dangos cysylltiadau cryf â’r gymuned leol a sicrhau buddion uniongyrchol i bobl Bro Morgannwg;
- Sicrhau budd i amrywiaeth mor eang â phosibl o bobl a dangos ei fod yn ceisio cynnwys pawb yn y gymuned; a
- Bydd gan y gymuned leol lais mewn penderfyniadau.

(b) Dylai’r ased:

- Fod yn fuddiant cyfreithiol sy’n eiddo i’r Cyngor a rhaid i’r corff fedru dangos ei fod o fudd i’r gymuned;
- Bod yn eiddo i’r Cyngor ar ffurf rhydd-ddeiliad / lesddeiliad; ac
- Anogir cyrff i wneud cais i ddefnyddio’r ased mewn gwahanol ffyrdd ac i gydleoli gwasanaethau yno.

(c) Defnydd arfaethedig:

- Mae angen y gweithgaredd arfaethedig ac mae galw amdano ac ystyriwyd a oes corff arall yn diwallu'r angen hwn yn foddhaol eisoes;
- Bwriedir defnyddio'r ased mewn modd sy'n hybu blaenoriaethau Strategaeth Gymunedol a Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar waith, gan adlewyrchu Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Bwriedir defnyddio'r ased i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynhyrchu incwm a sicrhau cynaliadwyedd;
- Mae'r corff sy'n gwneud y cais wedi penderfynu faint o le sydd ei angen i roi ei gynigion ar waith ac wedi dangos sut y bydd yn gwneud y gorau o'r ased;
- Bydd y defnydd arfaethedig yn ceisio cyflwyno cyrhaeddiad cynhwysol i'r gymuned a bydd yn agored i bawb lle bynnag y bo modd.

N.B. Bydd pob Cais Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cael ei sgorio gan Weithgor CAT yn erbyn Matrics Sgorio sydd ynghlwm yn Atodiad 7 i'r ddogfen hon.

ATODIAD 2 – Y BROSES O DROSSLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL

Cam 1: Mynegi diddordeb

Mae angen anfon ffurflen Mynegi Diddordeb ffurfiol at Gyngor Bro Morgannwg, a fydd yn ei hasesu.

I gynorthwyo'r rhai a fydd yn mynegi diddordeb, bydd y Cyngor yn darparu unrhyw wybodaeth am yr ased/gwasanaeth os yw'n briodol iddo wneud hynny.

I sicrhau tryloywder a thegwch i'r gymuned gyfan, pan gyflwynir Achos Busnes Amlinellol, bydd y Cyngor yn hysbysebu'r ffaith bod yr eiddo perthnasol ar gael, a hynny am gyfnod o 4 wythnos fan bellaf. Yn ystod y cyfnod hwn bydd angen i bawb sydd wedi mynegi diddordeb gyflwyno Achos Busnes Amlinellol ac, ar ôl eu hystyried, gwahoddir y cyrff sy'n bodloni'r gofynion symud ymlaen i Gam 2.

Gofynion

ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Bydd yr Achos Busnes Amlinellol yn cynnwys y canlynol:

- Manylion y sefydliad etc yn unol â'r wybodaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen mynegi diddordeb sydd ynghlwm yn Atodiad 3.
- Os yw'r dogfennau'n dderbyniol, ac os yw'r Cyngor yn cytuno â'r syniad o ran egwyddor, gwahoddir yr ymgeisydd i symud ymlaen i Gam 2.
- Os nad yw'r dogfennau'n dderbyniol a/neu os na chytunir â'r egwyddor, rhoddir esboniad llawn.

Penderfyniad

Cyngor Bro Morgannwg

Gwneir penderfyniad gan y Grŵp CAT cyn pen 6 wythnos amcangyfrifedig ar ôl derbyn yr Eol yn dilyn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Perchnogaeth Asedau / aelod perthnasol o'r Cabinet.

CAM 2: Cynllun Busnes Llawn

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn gwahodd y sefydliad i gyflwyno ffurflen mynegi diddordeb ffurfiol i'r Grŵp Ystadau Strategol.

Bydd y Cyngor yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol am yr ased e.e. i helpu i ddatblygu'r cynllun busnes llawn.

Gofynion

Y CYNLLUN BUSNES LLAWN

Bydd hwn yn gynllun busnes ariannol manwl a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar:

- Y rhagolygon ariannol am gyfnod o dair blynedd o leiaf (cynllun cynaliadwyedd) ac arolwg ymgynghori;
- Dadansoddiad o anghenion a'r modd y bwriedir defnyddio'r ased ('y farchnad');
- Ar ba ffurf y gofynnir i'r Cyngor drosglwyddo'r ased a pham;
- Y canlyniadau a'r buddion arfaethedig a sut y caiff y rhain eu monitro/mesur;
- Tystiolaeth o ddarparu gwasanaeth/rheoli eiddo yn y gorffennol;
- Gallu a phrofiad y corff i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Y gallu i reoli'r ased;
- Cynaliadwyedd ariannol.
- Y prif gamau a gymerir i roi'r prosiect ar waith h.y. holl agweddau ffisegol ac ariannol ar y prosiect.

Bydd Grŵp CAT yn adrodd i Fwrdd Mewnwelediad y Cyngor gydag asesiad manwl o

- Buddion i'r gymuned, yr ymgeisydd a sut maent yn cysylltu â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor;
- Risgiau'n ymwneud â gallu'r corff i reoli'r ased o ran cyllid a threfniadaeth;
- Derbyniadau cyfalaf posibl a'r incwm a gollir neu unrhyw gost arall y bydd y Cyngor yn ei wynebu mewn perthynas â throsglwyddo'r ased;
- Amodau i'w hargymell ar gyfer trosglwyddo'r ased ac unrhyw ystyriaethau cyfreithiol, gan gynnwys TUPE;
- Trefniadau monitor e.e. Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

Penderfyniad

Bwrdd Mewnwelediad Cyngor Bro Morgannwg

- Yn dilyn ymgynghori â swyddogion perthnasol, wedi'i lofnodi gan y Cyfarwyddwr Perchnogaeth Asedau (gan gynnwys Cynllunio, Datblygu Economaidd, Cyfreithiol a Chyllid) ac Aelodau perthnasol y Cabinet [bydd y Gweithgor Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn gwneud argymhelliad i Fwrdd Mewnwelediad y Cyngor.
- Dylid cyflwyno'r Cynllun Busnes Llawn i'r Cyngor cyn pen 12 wythnos ar ôl cael gwahoddiad i symud ymlaen i Gam 2.
- Nod y Cyngor yw asesu'r Cynllun Busnes a chyflwyno adroddiad / rhoi gwybod am y penderfyniad terfynol cyn pen 12 wythnos wedi i'r Cynllun Busnes gael ei gyflwyno. Rhaid i'r Cabinet gadarnhau'r penderfyniad.

CAM 3: Argymhellion a phenderfyniad

Gofynion	Penderfyniad
Grŵp TAC yn cyflwyno adroddiad ac argymhellion i Gabinet y Cyngor.	<p>Cabinet Cyngor Bro Morgannwg (gall y Pwyllgor Craffu alw'r cais i mewn), yn unol â chyfansoddiad y Cyngor a'r weithdrefn ar gyfer galw ceisiadau i mewn o dan y broses benderfynu.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae'r amserlen yn dibynnu ar gymhlethdod y cynnig a'r amserlenni adrodd. Fodd bynnag, y nod yw cael penderfyniad terfynol ymhen 12 wythnos.

ATODIAD 3

TROSOGLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL:

MYNEGI DIDDORDEB: ACHOS BUSNES AMLINELLOL – TROSOGLWYDDO ASED AU CYMUNEDOL

CAM 1: Mynegi diddordeb

Mae **Cam 1** o'r broses ymgeisio wedi'i gynllunio i helpu'r Cyngor i gynnal asesiad cychwynnol o'ch cais ac i benderfynu a yw'ch cais yn bodloni meini prawf y Cyngor. Ni fyddwn yn gallu dechrau'r broses o ystyried eich cais oni bai ein bod yn cael yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r cais felly llenwch y ffurflen yn ofalus a chysylltwch â'r Cyngor os hoffech ragor o wybodaeth neu gyngor.

Os bydd eich cais yn bodloni meini prawf y Cyngor, cewch eich gwahodd i gymryd rhan yng Ngham 2 a chyflwyno cais manylach. Dylid nodi nad yw'r ffaith eich bod yn llenwi ac yn cyflwyno ffurflen yng Ngham 1 yn gwarantu y bydd y Cyngor yn cynnwys eich cais yng Ngham 2 ac ni fydd unrhyw reidwydd arno i wneud hynny.

1. Llenwch y ffurflen hon, gan atodi unrhyw wybodaeth ychwanegol, a'i hanfon at:

**Andrew Tovey
Grŵp Ystadau Strategol
Is-adran Eiddo
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Holton Road
Y Barri
Bro Morgannwg
CF63 4RU**

E-bost: antovey@valeofglamorgan.gov.uk

Sefydliad	
Ymgeisydd	
Manylion cyswllt (gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn)	
Dyddiad	



1. Cyflwyniad

Yr Achos Busnes Amlinellol

- | | |
|----|--|
| a. | <p>Ai cais i gymryd meddiant o ased neu wasanaeth penodol yw hwn?</p> <p>Os felly, rhowch fanylion ac esboniwch sut rydych yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd? e.e. les, cytundeb rheoli etc.</p> |
| b. | <p>A yw Cyngor Bro Morgannwg wedi'ch gwahodd i wneud cais?</p> <p>Os felly, nodwch pa Aelod(au) / Swyddog(ion) rydych chi wedi bod yn ymdrin â nhw a rhowch y cefndir hyd yma:</p> |

2. Cefndir

Disgrifiwch eich sefydliad

- | | |
|----|--|
| a. | <p>Pa fath o sefydliad ydych chi? (e.e. cyngor tref neu gymuned, cymdeithas neu gorff anghorfforedig, elusen gofrestrredig neu gymdeithas lesiant, ymddiriedolaeth, cwmni cyfyngedig drwy warant, cwmni â budd cymunedol etc.):</p> |
| b. | <p>Os yw'n berthnasol, rhowch rif cofrestru'r cwmni, rhif cofrestru'r elusen, rhif cofrestru'r gymdeithasol lesiant. Os nad ydych eisoes yn gwmni corfforedig, esboniwch sut rydych yn bwriadu newid eich statws.</p> |
| c. | <p>Pa wasanaethau, neu fath o wasanaethau, y mae'ch sefydliad yn eu darparu ar hyn o bryd, neu'n bwriadu eu darparu (h.y. y prif weithgarwch y byddwch, neu rydych yn dymuno, ymgymryd ag ef os caiff yr ased cymunedol ei drosglwyddo i chi):</p> |

Ch.	Faint o bobl sy'n rhan o'ch sefydliad? Beth yw ei strwythur e.e. pwyllgor rheoli, staff amser llawn neu ran amser rydych yn eu cyflogi, gwirfoddolwyr etc?
d.	Disgrifiwch eich trefniadau llywodraethu os nad ydych yn gyngor tref neu gymuned:
dd.	A oes gennych chi gyfansoddiad ysgrifenedig neu Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu neu set o reolau? Os felly, atodwch gopi gyda'r ffurflen hon, neu gallwch gynnwys dolen i dudalen we:
e.	A ydych chi'n cyhoeddi adroddiad blynyddol? Os felly, atodwch y copi diweddaraf gyda'r ffurflen hon neu gallwch gynnwys dolen i dudalen we:

3. Pam mae angen yr ased?		
A yw'ch adeilad presennol		Ticiwch
a.	Mae'n anaddas	
b.	Mae yn y lle anghywir	
c.	Mae'n rhy ddrud neu rydych chi wedi cael rhybudd i adael	
ch.	Rydych yn ehangu'ch gwasanaeth	

d.	Rydych yn darparu rhagor o wasanaethau neu'n bwriadu gwneud hynny.	
dd.	Nid oes gennych chi adeilad ar hyn o bryd.	

4. Buddion

Rhowch fanylion y buddion rydych yn credu y gellir eu sicrhau os caiff yr ased ei drosglwyddo i chi. Rhowch fraslun o'r buddion i'ch sefydliad, i'r gymuned ac i Fro Morgannwg.

a.	A fydd yr ased yn caniatáu i chi wella'ch gwasanaethau? Os felly, disgrifiwch sut:
b.	A fyddwch yn gallu darparu gwasanaethau ychwanegol? Os felly, disgrifiwch y rhain:
c.	A fydd eich gwasanaeth yn fwy gweladwy? Os felly, esboniwch sut:
ch.	A fydd hi'n haws defnyddio'ch gwasanaeth? Os felly, esboniwch pam:
d.	A fydd yn ased yn ategu gwasanaethau neu sefydliadau eraill neu'n caniatáu i chi weithio ar y cyd? Os felly, dywedwch sut:

dd.	A fydd yr ased yn diogelu gwasanaethau? Os felly, dywedwch sut:
e.	A fyddwch yn arbed arian? Os felly, esboniwch sut:

5. Cyllid

- a. Pa becyn ariannol sydd gennych ar waith i gefnogi'ch cynnig (cyfalaf a refeniw)? Disgrifiwch pa mor sicr yw'r cyllid hwn (e.e. a yw yn eich cyfrif banc ynteu a ydych yn aros i glywed a fyddwch yn cael grant?) Atodwch dystiolaeth gyda'ch cais.

6. Partneriaid, rhanddeiliaid a threfniadau cydweithio

A ydych yn cynnig unrhyw drefniadau i weithio ar y prosiect hwn gyda'r cyngor neu unrhyw gorff cyhoeddus neu gorff yn y trydydd sector?

- a. Os felly, rhowch fanylion a nodwch sut y byddant yn cyfrannu at y fenter:
- b. A ydynt yn gefnogol i'r cais hwn?

7. Ymgynghori

Hyd yma, a ydych wedi cynnal unrhyw fath o ymgynghoriad â'r gymuned ynghylch eich cynnig?

a.	Esboniwch sut a phryd rydych wedi ymgynghori â'r gymuned:
b.	Rhowch grynodeb o ganlyniadau unrhyw ymgynghoriad rydych wedi'i gynnal â'r gymuned:
c.	Rhowch dystiolaeth sy'n dangos bod y gymuned yn gefnogol i'ch cais:

Rydw i / rydym ni'n cadarnhau bod yr holl wybodaeth a'r datganiadau ar y ffurflen mynegi diddordeb hon yn wir ac yn gywir. Rydw i / rydym ni'n deall y gall y Cyngor ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ystod unrhyw gam o'r broses ymgeisio hon a gall ofyn i ffynonellau eraill gadarnhau'r wybodaeth.

Enw	
Swydd yn y sefydliad	
Llofnod	
Dyddiad	

DS Cadwch gopi o'r ffurflen hon er gwybodaeth ac os bydd eich amgylchiadau neu'ch manylion cyswllt yn newid, cofiwch roi gwybod i'r swyddog priodol.

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cadw unrhyw wybodaeth rydych wedi'i' chynnwys ar y ffurflen er mwyn asesu'ch cais a phenderfynu yn ei gylch, ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.

ATODIAD 4

TROSGLWYDDO ASED AU CY MUNEDOL: CYNLLUN BUSNES

CAM 2: Cynllun Busnes Llawn

Cam 2 o'r broses TAC: Os byddwch yn mynegi diddordeb ac yn llwyddo yng Ngham 1, cewch wahoddiad gan Gyngor Bro Morgannwg i gyflwyno achos busnes llawn i ganiatáu i'r Cyngor gynnal asesiad manwl o'ch cais ac i benderfynu a fydd yn ymarferol ei roi ar waith o safbwynt ariannol a gweithredol. Ni fyddwn yn gallu dechrau'r broses o ystyried eich cais oni bai ein bod yn cael yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais felly paratowch eich cynllun busnes yn ofalus a chysylltwch â'r Cyngor os hoffech ragor o wybodaeth neu gyngor.

Cwblhewch yr achos busnes hwn, gan atodi unrhyw wybodaeth ychwanegol, a'i anfon at:

Andrew Tovey
Grŵp Ystadau Strategol
Is-adran Eiddo
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Holton Road
Y Barri
Bro Morgannwg
CF63 4RU

E-bost: antovey@valeofglamorgan.gov.uk

Sefydliad	
Ymgeisydd	
Manylion cyswllt (gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn)	
Dyddiad	

Crynodeb gweithredol

Rhowch grynodeb byr (hyd at un dudalen) o'ch cynnig – gan gynnwys rhywfaint o gefndir am eich sefydliad, y prosiect rydych yn ei gynnig, y nodau a'r amcanion rydych yn ceisio'u cyflawni a sut y caiff ei ariannu i ddechrau, ac wedi hynny.

1. Ein prosiect ni

Yn yr adran hon, rhowch wybodaeth am:

- Eich sefydliad
- Gwerthoedd a chenhadaeth eich sefydliad
- Nodau ac amcanion eich prosiect cymunedol
- Y buddion y byddech yn ceisio'u sicrhau a sut y byddech yn mesur llwyddiant
- Manylion eich cyfleusterau presennol. A fyddai'r rhain yn rhan o'r cynnig hwn ac, os felly, sut

2. Y farchnad

Yn yr adran hon, soniwch am:

- Y gymuned (p'un a yw'n gymuned ddaearyddol neu'n gymuned fuddiant) y byddai'ch prosiect yn ei gwasanaethu
- Eich marchnad bresennol a'ch marchnad arfaethedig
- Canlyniadau unrhyw ymgynghoriad rydych wedi'i gynnal â'r gymuned (gan gynnwys y fethodoleg a ddefnyddiwyd, y canlyniadau a'ch casgliadau) a'ch cynlluniau ar gyfer ymgynghori ymhellach
- Gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau cymunedol perthnasol eraill
- Cyfleoedd i weithio ar y cyd a datblygu partneriaethau

3. Twf a datblygiad busnes

Yn yr adran hon, mae angen cynnwys:

- **Adolygiad o'ch sefydliad** (gan ddefnyddio dadansoddiad yn seiliedig ar Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT). Mae templed ym Mhapur ategol 1)
- **Strategaeth i ddatblygu'ch busnes** (cynllun cynaliadwyedd)
Byddai hyn yn cynnwys y prif weithgareddau y byddech yn ymgymryd â nhw fesul cam. Er enghraifft, gallai cam 1 gynnwys cynllunio'ch prosiect nes y caiff yr ased/gwasanaeth ei drosglwyddo i chi. Byddai cam 2 yn dechrau ar ôl i'r ased/gwasanaeth gael ei drosglwyddo i chi, a gallech ddisgrifio gwaith y ddwy neu dair blynedd gyntaf, a byddai cam 3 yn cynnwys strategaeth barhaus i gynnal yr ased/gwasanaeth.

4. Rheoli a gweithredu

Yn yr adran hon, disgrifiwch y canlynol:

- Eich pwyllgor rheoli a'ch trefniadau llywodraethu
- Staffio'r ased/gwasanaeth a rôl gwirfoddolwyr o'r gymuned
- Sut y byddech yn datblygu unrhyw weithgareddau cymunedol
- Sut y byddech yn gweithredu'r ased a'r gwasanaeth
- Manylion unrhyw bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol y byddech yn eu rhoi ar waith a beth y byddai'r rhain yn ceisio'i gyflawni
- Sut y byddech yn rheoli gweithrediadau o ddydd i ddydd

5. Cynllun marchnata

Yn yr adran hon, dywedwch:

- Sut y byddech yn ceisio datblygu a chynnal proffil eich prosiect / sefydliad a'r ased / gwasanaeth(au).
- Sut y byddech yn sicrhau bod pobl yn gwybod am y gwasanaeth / ased.

6. Cynllun ariannol

Yn yr adran hon, rhowch wybodaeth am y canlynol:

- Cynllun incwm a gwariant am gyfnod o dair blynedd (mae templed ar gyfer paratoi amcanestyniad o'ch llif arian ym Mhapur ategol 2). Mae angen cynnwys disgrifiad o unrhyw ragdybiaethau sydd gennych o ran y rhagolygon ar gyfer incwm a gwariant.
- Sut y byddech yn cynhyrchu incwm (gan gynnwys rhagolygon am werthiant lle bo'n briodol ar gyfer y pum mlynedd gyntaf)
- Manylion unrhyw gyllid cychwynnol y byddai ei angen arnoch a'r ffynonellau posibl
- Manylion eich strategaeth ar gyfer codi arian
- Manylion unrhyw grantiau sy'n berthnasol i'r achos busnes hwn a golwg cyffredinol ar unrhyw amodau cysylltiedig

7. Dadansoddi risg

Yn yr adran hon, rhowch grynodedeb o'r risgiau a allai wynebu'r prosiect ac esboniwch sut y byddech yn ceisio lleihau'r neu reoli'r risgiau hynny. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe baech yn defnyddio'r fformat a ganlyn.

Disgrifiad o'r risg	Pa mor debygol yw'r risg?	Beth fyddai ei effaith?	Y camau y mae angen i chi eu cymryd i leihau neu reoli'r risg
----------------------------	----------------------------------	--------------------------------	--

	(Bron yn sicr, tebygol, posibl, annhebygol iawn)	(Catastroffig, difrifol, gweddol ddifrifol, effaith fach)	

8. Rhoi'r prosiect ar waith

Yn yr adran hon, mae angen cynnwys cynllun prosiect amlinellol i roi'ch prosiect ar waith. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe baech yn defnyddio'r fformat a ganlyn.

Cam i'w gymryd /tasg	Pwy sy'n gyfrifol	Dyddiad dechrau	Dyddiad y daw i ben

Rydw i / rydym ni'n cadarnhau bod yr holl wybodaeth a'r datganiadau ar y ffurflen mynegi diddordeb hon yn wir ac yn gywir. Rydw i / rydym ni'n deall y gall y Cyngor ofyn am wybodaeth ychwanegol yn ystod unrhyw gam o'r broses ymgeisio hon a gall ofyn i ffynonellau eraill gadarnhau'r wybodaeth.

Enw	
Swydd yn y sefydliad	
Llofnod	
Dyddiad	

DS Cadwch gopi o'r ffurflen hon er gwybodaeth ac os bydd eich amgylchiadau neu'ch manylion cyswllt yn newid, cofiwch roi gwybod i'r swyddog priodol.

Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cadw unrhyw wybodaeth rydych wedi'i' chynnwys ar y ffurflen er mwyn asesu'ch cais a phenderfynu yn ei gylch, ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Papur ategol 1 – Asesu Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

Trosolwg
<p>Mae dadansoddiad SWOT yn ffordd ddefnyddiol o ddeall a gwneud penderfyniadau mewn pob math o sefyllfaoedd. Acronym Saesneg ydyw ar gyfer y geiriau Saesneg: Strengths (Cryfderau), Weaknesses (Gwendidau), Opportunities (Cyfleoedd) a Threats (Bygythiadau).</p> <p>Yn y bôn, rydych yn ateb y pedwar cwestiwn a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw cryfderau fy nghynnig? • Beth yw gwendidau fy nghynnig? • Beth yw'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'm cynnig? • Beth yw'r bygythiadau i'm cynnig?
Dechrau arni
<p>Caiff templed dadansoddiad SWOT ei gyflwyno fel arfer ar ffurf grid a fydd wedi'i rannu'n bedwar - un ar gyfer pob pennawd: Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau.</p> <p>Paratowch dempled gwag gan roi'r penawdau a rhowch y wybodaeth angenrheidiol gan ddefnyddio'r cwestiynau uchod i'ch helpu. Mae enghraifft isod.</p>
Pam defnyddio templed SWOT?
<p>Ar ôl llenwi'r templed, byddwch yn deall y cynnig yn well ac yn barod i wneud penderfyniadau deallus.</p>

Dadansoddiad SWOT	
Cryfderau	Gwendidau
Cyfleoedd	Bygythiadau

Papur ategol 2 – Rhagolwg Llif Arian

Dangoswch eich rhagolwg llif arian. Mae'r templed isod yn dangos y mathau o lifau arian y gallech eu hystyried. Mae rhifau a restrir yn y golofn 'Nodyn' yn caniatáu i chi gyfeirio at unrhyw ragdybiaethau y byddwch yn eu gwneud wrth amcangyfrif y llifau arian hyn.

		Cam 1	Cam 2		Cam 3		
Nodyn:	Incwm	Ar hyn o bryd	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5
1	Cyllid cychwynnol						
2	Grantiau						
3	Rhentu / llogi ystafell						
4	Incwm arall: - Peiriannau gwerthu bwyd a diod - Caffi - Siop						
5	Amser gwirfoddolwyr – cyfraniad ymarferol						
6	Codi arian						
	Cyfanswm						
	Gwariant	Ar hyn o bryd	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5
7	Cyflogau gan gynnwys argostau yswiriant gwladol a phensiynau - Rheolwyr - Staff - Amser gwirfoddolwyr mewn nwyddau						
8	Hyfforddi a datblygu staff						
9	Costau gofalwyr / glanhawyr - Deunyddiau glanhau - Casglu sbwriel - Diogelu'r eiddo						
10	Cyfleustodau - Dŵr - Trydan - Nwy						
11	Ardrethi busnes						
12	Trwsio a chynnal a						

	chadw						
13	Trafnidiaeth a theithio						
14	Cyflenwadau - Dodrefn, TGCh, dillad, offer						
15	Ffonau a'r rhyngwyd						
16	Ymgyrchoedd hyrwyddo / cyhoeddusrwydd						
17	Yswiriant a ffioedd proffesiynol - Yswirio'r eiddo - Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus - Ffioedd hawliau perfformio - Ffioedd cyfrifwyr a chyfreithwyr - Ffioedd penseiri - Ffioedd ymgynghorwyr						
18	Arall						
	Cyfanswm y gwariant						
	Gwarged neu (ddiffyg)						
	Cronfeydd cronnus						

Atodiad 5 - Ffynonellau Gwybodaeth a Chanllawiau Pellach i Ymgeiswyr

DTA Cymru

Mae DTA Cymru yn cefnogi Ymddiriedolaethau Datblygu, Sefydliadau Cymunedol a phobl ledled Cymru, i adeiladu cymunedau cydnerth a chymryd rheolaeth o'u bywydau, trwy Fenter Gymunedol, gweithredu cymdeithasol a pherchnogaeth gymunedol.

Mae porth DTA Cymru ar gyfer ystod eang o bobl a sefydliadau a allai fod â diddordeb mewn datblygu asedau tir ac adeiladu y gellir eu defnyddio er budd cymunedol neu gyhoeddus. <http://assetsportal.dtawales.org.uk>

Hawliau Cymunedol

<http://mycommunity.org.uk/resources/understanding-community-asset-transfer/>

Ardal

Mae'r Uned Trosglwyddo Asedau (ATU) yn hyrwyddo ac yn cefnogi Trosglwyddo Asedau Cymunedol - trosglwyddo tir ac adeiladau o Gyrrff Cyhoeddus i Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol.

<http://locality.org.uk/our-work/assets/asset-transfer-unit/>

<http://locality.org.uk/resources/hold/>

<https://mycommunity.org.uk/resources/understanding-community-asset-transfer/>

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Mae WCVA yn cefnogi ac yn cynrychioli Trydydd Sector Cymru. Maent yn cynrychioli ac yn ymgyrchu dros sefydliadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau.

<https://www.wcva.org.uk/advice-guidance/assets>

Cymdeithas Genedlaethol Cyngorau Lleol yng Nghymru a Lloegr

<https://www.tnlcommunityfund.org.uk/wales#section-1>

Un Llais Cymru

<http://www.onevoicewales.org.uk>

Gwasanaeth Cyngori Tir Cymunedol Cymru

Y Gwasanaeth Cyngori Tir Cymunedol yng Nghymru (CLAS Cymru), sy'n ceisio helpu grwpiau tyfu cymunedol, tiffeddianwyr - ac eraill sy'n ymwneud â mynediad tir - i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod mwy o dir ar gael ar gyfer tyfu cymunedol.

<http://wl.communitylandadvice.org.uk/cy/home%20/>

Canolfan Cydweithredol Cymru

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn cefnogi datblygiad a thwf entrepreneuriaeth gymdeithasol, Mentrau Cymdeithasol a Chydweithfeydd yng Nghymru.

<http://www.walescooperative.org>

Mae'r Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo yn cefnogi Trosglwyddo a Datblygu Asedau Cymunedol mewn cyn gymunedau maes glo gyda chymorth datblygu cydgysylltiedig a chyllid grant.

https://www.coalfields-regen.org.uk/wales_support/wales-help-support-title-5/

Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) yn darparu gwybodaeth a chynghor diduedd am ddim i gyflogwyr a gweithwyr ar bob agwedd ar gysylltiadau gweithle a chyfraith cyflogaeth. Mae ACAS yn cefnogi perthnasoedd da rhwng cyflogwyr a gweithwyr sy'n sail i lwyddiant busnes.

<http://www.acas.org.uk>

Llywodraeth Cymru - Cod Ymarfer ar Faterion y Gweithlu (Cod Dwy Haen)

<http://gov.wales/topics/improvingservices/publications/two-tier-workforce-codes/?lang=cy>

Cymru TUC yw llais Cymru yn y gwaith. Gyda dros 50 o undebau llafur cysylltiedig, mae TUC Cymru yn cynrychioli bron i hanner miliwn o weithwyr

<https://www.tuc.org.uk/wales?language=cy>
<https://www.gov.uk/government/publications/fair-deal-guidance>

Llywodraeth Cymru / Ystadau Cymru: Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT): arweiniad i ymgeiswyr

Yn egluro'r broses pan fydd perchnogaeth neu reolaeth eiddo yn cael ei drosglwyddo o gorff sector cyhoeddus i drydydd sector neu grŵp cymunedol.

<https://gov.wales/community-asset-transfer-cat-guidance-applicants>